# Canllaw Dy Ddiwrnod Agored

Dydd Sadwrn, 5 Gorffennaf 2025



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY



# Croeso i Brifysgol Aberystwyth

Rydym yn hynod o falch eich bod yn ymuno â ni yn ein Diwrnod Agored. Mae Aberystwyth wir yn Brifysgol ardderchog, ac rwy'n siŵr y bydd y Diwrnod Agored yn rhoi cyfle i chi weld pam. Cewch gwrdd â'n myfyrwyr a'n staff, holi digon o gwestiynau, a dysgu mwy am y cyfleoedd sydd ar gael i chi fel myfyriwr yn Aberystwyth.

Byddwch yn treulio amser yn ein hadrannau academaidd, yn dysgu am y cwrs neu gyrsiau sydd o ddiddordeb ichi, ein modiwlau, ein staff dysgu, a chlywed lle gallai eich astudiaethau eich arwain ar ôl graddio. Cewch weld yr adnoddau sydd gennym, a chlywed mwy am yr ymchwil arloesol sy'n deillio o'n labordai, ein hystafelloedd seminar a'n darlithfeydd.

Cewch hefyd gyfle i fynd ar daith o'r campws i weld ein llety, y llyfrgell, y Ganolfan Chwaraeon a Chanolfan y Celfyddydau. Mae Undeb y Myfyrwyr wrth galon ein campws, ac mae'r adrannau academaidd, ein llety, a'r adnoddau cymdeithasol ac astudio yn ddigon agos i allu cerdded yno'n hawdd.

Bydd nifer o sesiynau gwybodaeth yn rhedeg trwy'r dydd, yn ogystal â'n Ffair Wybodaeth, lle gallwch ddysgu mwy am wneud cais i'r Brifysgol, cyfleoedd i astudio neu weithio dramor, a'n hymrwymiad i gynorthwyo myfyrwyr.

Os gallwch chi, ceisiwch gael cyfle hefyd i ymweld â'r dref ei hun. Dim ond taith gerdded fer o'r campws mae yma dref lan môr fywiog, a llu o siopau, bwytai a chaffis. Mae 'na gefn gwlad hardd yn amgylchynu'r dref a dydyn ni ddim yn bell o fynyddoedd y Canolbarth, felly mae Aberystwyth yn ddewis ardderchog i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored.

Yn fwy na dim, rwy'n gobeithio y bydd y Diwrnod Agored yn dangos ichi pa mor gynnes a chroesawgar yw'r gymuned yma. Mae ein Prifysgol yn cynnig amgylchedd cynhwysol; mae myfyrwyr o bob cwr o'r byd yn cael eu gwahodd i ymgartrefu yn Aberystwyth, yn cael eu hannog i fod yn nhw eu hunain, ac yn cael eu cefnogi i ffynnu yn academaidd ac yn bersonol. Rydym wir yn gobeithio y byddwch yn gweld mai Aberystwyth yw'r lle i chi.

**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-Ganghellor**



# Teithio, Cyrraedd a Pharcio

## Campws Penglais

SY23 3BY

**Teithio mewn car**
Cyrhaeddwch y brif fynedfa ar Gampws Penglais lle bydd arwyddion i'ch cyfeirio at y meysydd parcio.

Bydd parcio am ddim.

**Teithio ar drên**
Bydd bysiau yn cyfarfod â'r trenau yng ngorsaf Aberystwyth, ac yn dychwelyd ymwelwyr i'r orsaf ar ddiwedd y dydd. Am fwy o wybodaeth os yn teithio ar drên, ewch i'r dudalen cwestiynau cyffredinol: www.aber.ac.uk/da/cwestiynaucyffredin

## Gwasanaeth Bws Am Ddim

Yn ystod y Diwrnod Agored mae gwasanaeth bws gwennol ar gael am ddim rhwng y dref a champws Penglais (9:00 - 16:30). Galwch i mewn i'r ddesg groeso yng Ngweithfan y Brifysgol ger gorsaf drenau Aberystwyth i ofyn am fws. Bydd y gwasanaeth yn gollwng a chasglu teithwyr ger prif arhosfan fysiau Campws Penglais lle bydd aelodau o staff ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau.

Darperir gwasanaeth bws gwennol hefyd rhwng prif gampws Penglais a'r Ysgol Gelf. Darllenwch raglen yr Ysgol Gelf er mwyn gweld amseroedd agor yr adeilad a'r gweithgareddau sydd ar gael.

## Cymorth i fyfyrwyr ac ymwelwyr anabl

Os oes gyda chi neu unrhyw un sy'n dod gyda chi anabledd, anawsterau symud neu os oes angen gwneud unrhyw drefniadau penodol ffoniwch +44 (0) 1970 622065 neu cysylltwch â diwrnodagored@aber.ac.uk

Mae Canllawiau Mynediad i adeiladau a llwybrau ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael trwy ein partneriaeth â AccessAble.

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.accessable.co.uk/aberystwyth-university

AccessAble

## Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Am ragor o fanylion ewch i
www.aber.ac.uk/da/cwestiynaucyffredin

Siaradwch a'r tîm croesawu wrth fynedfa Campws Penglais os bydd angen cymorth arnoch ar y diwrnod.





# Eich Diwrnod Agored ym Mhrifysgol Aberystwyth

Cofrestru, Croeso a Gwybodaeth Gyffredinol
Canolfan y Celfyddydau, Campws Penglais, SY23 3DE

## Desgiau Cofrestru

Ewch at y Desgiau Cofrestru a'r Desgiau Gwybodaeth yng Nghanolfan y Celfyddydau ble bydd ein tîm croesawu yn eich cofrestru, ac ar gael i roi cyfarwyddiadau a chynnig cyngor ar sut i wneud y mwyaf o'ch ymweliad.

Gallwch gofrestru yma o 9:00.

## Desgiau Gwybodaeth

Yma cewch raglenni, mapiau a'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen eich adran ddewisiol.

## Adrannau

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ynglyn â rhaglen eich adran ddewisiol ar dudalen Rhaglen Diwrnod Agored, www.aber.ac.uk/rhaglenda neu wrth sganio'r cod QR yma.

**Cofiwch gasglu taleb o'r Desgiau Croesawu er mwyn cael diod poeth neu oer a chacen AM DDIM!**



**Bydd ein llysgenhadon yn y crysau-t melyn ar gael trwy gydol y dydd i ateb unrhyw ymholiadau ac i roi cyfarwyddiadau i chi!**

Mae'r desgiau gwybodaeth yng Nghanolfan y Celfyddydau ar agor tan 16:00 - mae croeso i chi alw heibio ar unrhyw adeg yn ystod eich ymweliad!



# Ffair Wybodaeth

Llyfrgell Hugh Owen (Llawr D) | 9:00 - 16:00

Yn y Ffair Wybodaeth ceir gwybodaeth am y canlynol:

### Llety

Bydd staff o'r Tîm Llety wrth law i ateb ymholiadau ynglŷn â byw yn llety'r Brifysgol neu yn Llety'r Sector Preifat. Fe welir manylion yr ymweliadau llety yn ystod y dydd ar dudalen 5.

### Derbyn Israddedigion ac Uwchraddedigion

Bydd cynrychiolwyr o'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr wrth law i roi cyngor am ein polisïau derbyn, meini prawf mynediad, a dulliau ymgeisio.

### Ysgoloriaethau a Gwobrau Ariannol

Dewch i glywed am y pecyn hael o ysgoloriaethau a bwrsariaethau a gynigiwn, a faint o arian y gallech ei gael tuag at eich costau byw.

### Cyfleoedd Byd-eang

Dewch i weld pa gyfleoedd astudio dramor sy'n aros i chi ym Mhrifysgol Aberystwyth!

### Cymorth Hygyrchedd

Os ydych angen cymorth ychwanegol i fanteisio ar adnoddau dysgu oherwydd anabledd, gwahaniaeth dysgu, neu gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirsefydlog, bydd ein Cynghorwyr Hygyrchedd wrth law i roi arweiniad.

### Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dysgwch fwy am gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth cyllid; a chewch hefyd gyfle i ofyn cwestiynau am unrhyw agwedd ar astudio neu fwynhau gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Eich Gwasanaeth Gyrfaoedd

Dewch i siarad ag un o'n gweithwyr gyrfaoedd proffesiynol am unrhyw bwnc yn gysylltiedig â gyrfaoedd, gan gynnwys holi am ragolygon gyrfa sy'n gysylltiedig â phwnc penodol a'r dewis eang o gyfleoedd datblygu sydd gennym yn gysylltiedig â gwaith.

### Ffioedd Myfyrwyr

Bydd staff o Dîm Cyngor, Gwybodaeth ac Arian y Brifysgol a'r Swyddfa Ffioedd Myfyrwyr yno i roi cyngor ac arweiniad ariannol ac i drafod y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer talu.

### Cefnogaeth i Fyfyrwyr Rhyngwladol

Dysgwch fwy am fywyd myfyriwr rhyngwladol yn Aberystwyth. O ymholiadau am fisa, i awgrymiadau ymarferol ar beth i'w baratoi, mae ein tîm yn edrych ymlaen at gwrdd â chi.

### Undeb Aber

Cartref a llais myfyrwyr yn Aberystwyth. Darganfyddwch yr amrywiaeth o glybiau, cymdeithasau a chyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael.

# Sgyrsiau Canolog, Teithiau ac Ymweliadau

## Sgyrsiau

Mae'r sgyrsiau a gweithgareddau canolog i'w gweld ar ein Rhaglen Ar-Lein, **aber.ac.uk/rhaglenda** neu wrth sganio'r cod QR yma.

## Teithiau Llyfrgell

Teithiau o gwmpas llyfrgell Hugh Owen yn para tua 30 munud. Teithiau yn gadael o Fynedfa Lefel D, Llyfrgell Hugh Owen am 11:30 a 14:15.

## Teithiau y Ganolfan Chwaraeon

Teithiau o amgylch y cyfleusterau chwaraeon sydd ar y campws yn para tua 30 munud. Teithiau yn gadael tu allan i'r Ganolfan Chwaraeon am 11:30 a 14:15.

## Teithiau Campws Penglais

Bydd myfyrwyr yn arwain Teithiau o gwmpas y Campws (trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg), fydd yn para tua 40 munud. Bydd y teithiau yn cynnwys ymweliad â Llyfrgell Hugh Owen, Undeb y Myfyrwyr a'r Ganolfan Chwaraeon. Bydd teithiau yn dechrau tu allan i Ganolfan y Celfyddydau am: 10:00, 11:00, 12:00, 13:00, 14:00 a 15:00.

## Taith Fws o Amgylch Aberystwyth

Bydd bws yn gadael safle bws Campws Penglais ac mae'r daith yn para oddeutu 30 - 40 munud (13:00 a 15:00).







# Llety

### Tai a Phreswylfeydd Agored

Mae rhywfaint o'n llety ar gael i'w weld heddiw rhwng 09:30 a 16:00. Ewch i'r mannau cwrdd a nodir isod i gael cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y fflat neu'r tŷ. Bydd cynrychiolwyr o'r tîm Llety ar gael i ateb unrhyw ymholiadau a allai fod gennych wrth ichi ymweld â'r llety.

## Pantycelyn

(Llety Cymraeg Penodedig)

Er mwyn gweld y llety hwn gyda arlwyo rhannol ac adnoddau en-suite ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau byw trwy gyfrwng y Gymraeg, ewch i'r brif fynedfa ym Mhantycelyn.

Gellir cerdded i Bantycelyn drwy Gampws Penglais, wrth gerdded heibio'r Ganolfan Ddelweddu ar waelod Campws Penglais.

## Pentre Jane Morgan

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwyo gydag adnoddau a rennir, ewch i'r man cyfarfod tu allan i Dŷ 24.

Gellir cerdded i Pentre Jane Morgan o gampws Penglais trwy ddilyn y llwybr cerdded dros y bont. Neu fydd bws gwennol rheolaidd ar gael trwy'r dydd o safle bws Campws Penglais. Bydd y bws gwennol yn eich gollwng yn Y Sgubor yn Fferm Penglais, sy'n daith gerdded fer o Bentre Jane Morgan. Fferm Penglais (preswylfa hunan-ddarpar, en-suite), mae croeso i chi archwilio'r safle.

## Fferm Penglais

Er mwyn gweld y llety hwn sy'n llety hunan arlwyo gydag adnoddau en suite, ewch i Y Sgubor yn Fferm Penglais.

Gellir cerdded i Pentre Jane Morgan o gampws Penglais trwy ddilyn y llwybr cerdded dros y bont. Neu fydd bws gwennol rheolaidd ar gael trwy'r dydd o safle bws Campws Penglais. Bydd y bws gwennol yn eich gollwng yn Y Sgubor yn Fferm Penglais

Cewch mwy o wybodaeth o'r Ddesg Llety yn y Ffair Wybodaeth, Llyfrgell Hugh Owen.



# Aber a’r Gymraeg

**14:45 – 15:15 - Aber y Gymraeg a Ti (Welsh Medium Reception) – Neuadd Pantycelyn**

**Yma ym Mhrifysgol Aberystwyth mae gennym gymuned academaidd cyfrwng Cymraeg cyfoethog ac amrywiol, ac mae ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith yr ehangaf yng Nghymru.**

Rydym yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr sy’n rhugl yn y Gymraeg, yn ogystal â’r rhai sy’n llai hyderus neu’n ddysgwyr. Mae’r ddarpariaeth yn amrywio o gyrsiau sy’n cynnig ambell fodiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, i eraill lle mae modd astudio’r cwrs cyflawn yn y Gymraeg. Mae’n bosib i chi astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg hyd yn oed os ydych yn astudio yn Saesneg yn bennaf.

Fel myfyrwyr sy’n siarad Cymraeg, cewch ymuno â’r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**. Cewch ddod yn aelod o’r Coleg hyd yn oed cyn dechrau yn y Brifysgol. Un fantais o wneud hynny yw i gael y rhif aelodaeth y bydd ei angen arnoch chi wrth wneud cais am un o **ysgoloriaethau’r Coleg**.

Os ydych am fyw ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberystwyth, chewch chi ddim profiad cyflawn o’r gymuned glòs sydd yma heb ymuno ag **Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA)**. UMCA yw’r Undeb gyntaf o’i bath yng Nghymru, ac mae ganddi hanes doeth o gymuned, cynrychiolaeth a diwylliant sy’n pontio 50 mlynedd.

Mae **Neuadd Pantycelyn** yn cynnig llety ar gyfer hyd at 200 o fyfyrwyr sy’n dymuno byw trwy gyfrwng y Gymraeg. Bum munud ar droed o gampws Penglais ac o’r dref, Pantycelyn yw calon cymuned fywiog myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth. Mae’n agored i fyfyrwyr sy’n siarad Cymraeg ac unrhyw fyfyrwyr sy’n dysgu Cymraeg. Mae Pantycelyn ar agor yn ystod y Diwrnod Agored, gyda chroeso i ymwelwyr alw heibio rhwng 9:30 – 16:00.



# Prydau Bwyd a Lluniaeth

## Y Neuadd Fwyd a Starbucks

**Wedi ei leoli wrth brif fynedfa Campws Penglais**
Ar agor 8:00-16:00

**Ymunwch â ni am Frecwast**
Gweinir bwydlen brecwast poeth o 8:00-11:00

- Bwyd poeth ar gael drwy'r dydd gyda Brecwast Llawn yn cael ei weini tan 11:00.
- Cinio cownter poeth gydag amrywiaeth o gig lleol, bwydydd llysieuol a fegan.
- Prif gyrsiau'r Neuadd Fwyd ar gael 12:00-14:30.
- Bwyd poeth gan gynnwys Ramens amrywiol, pasteiod a Thatws Trwy'u Crwyn.
- Siop goffi Starbucks yn cynnwys amrywiaeth o ddiodydd poeth ac oer, smwddis, cacennau a brechdanau.
- Mae ein bwydlen yn darparu ar gyfer ystod o anghenion dietegol.

## CAFFIbach

**Wedi ei leoli yn adeilad Gwendolen Rees, Campws Penglais**
Ar agor 8:30 – 16:00

- Amrywiaeth o goffi barista a gwahanol fathau o dê.
- Smwddis ffrwythau ffres a sudd.
- Detholiad o gacennau, brechdanau a byrbrydau.

## Ffreutur, Pantycelyn

**Wedi'i leoli ym Mhantycelyn (tu ôl i'r Ganolfan Ddelweddu), Campws Penglais**
Ar agor 9:30-16:00

- Siop goffi yn gweini diodydd poeth ac oer a dewis o frechdanau a theisennau.

### Campws Heb Arian Parod

Nodwch bellach fod y campws yn gweithredu heb arian parod – rydym yn derbyn taliadau digyswllt yn unig.

## Starbucks

**Undeb y Myfyrwyr**
Ar agor 9:30-16:00

Amrywiaeth o goffi barista a gwahanol fathau o dê.

## Siop Undeb y Myfyrwyr

**Undeb y Myfyrwyr**
Ar agor 8:30 - 15:00

Siop gyfleustra ar y campws, yn cynnwys amrywiaeth o frechdanau, byrbrydau, diodydd, dillad a nwyddau brand.

## Caffi Canolfan y Celfyddydau

**Canolfan y Celfyddydau, Llawr 1af**
Ar agor 8:30 - 20:00

Pob math o fwyd a diod, gan gynnwys: rholiau, brechdanau, salad a chacennau cartref. Mae ein bwydlen yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion dietyddol, gydag opsiynau llysieuol, feganaidd a di-glwten ar gael yn safonol.



# Campws Penglais




## Allwedd

- Caffi
- Bwyty
- Parcio i Fyfyrwyr
- Parcio Talu ac Arddangos
- Parcio dros dro
- Parcio i Staff
- Llyfrgell
- Gorsaf gyfrifiaduron
- Campfa
- Siop
- Gwefru Cerbydau Trydan
- Lolfa Astudio
- Safle bysiau

## Ymholiadau

(1) **Derbynfa'r Brifysgol**
SY23 3FL

## Adeiladau'r Campws

(2) **Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth**

(3) **Tai Gwydr Botaneg**
- Adran y Gwyddorau Bywyd

(4) **Adeilad Carwyn James**
- Canolfan a Labordai Milfeddygol1
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (Adran y Gwyddorau Bywyd)

(5) **Adeilad Cledwyn**
- Cofrestrfa Academaidd
- Cynllunio
- Datblygiadau a Chysylltiadau Alumni
- Dysgu Gydol Oes
- Iechyd a Diogelwch
- Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr
- Ysgol y Graddedigion

(6) **Adeilad Edward Llwyd**
- Adran y Gwyddorau Bywyd

(7) **Adeilad Hugh Owen**
- Ieithoedd Modern
- Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Llyfrgell a Gwasanaethau Gwybodaeth
- Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol
- Y Gyfraith a Throseddeg
- Ysgol Fusnes Aberystwyth

(8) **Canolfan Addysg Gofal Iechyd**

(9) **Adeilad Gwendolen Rees**
- CAFFIbach
- Adran y Gwyddorau Bywyd

(10) **Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol**
- Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Hanes a Hanes Cymru

(11) **Adeilad Llandinam**
- Canolfan Ôl-raddedigion
- Canolfan Saesneg Ryngwladol
- Cyfrifiadureg
- Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear
- Gwasanaeth Gyrfaoedd

(12) **P5**
- Astudiaethau Gwybodaeth
- Seicoleg
- Ysgol Addysg

(13) **Adeilad Parry-Williams**
- Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
- Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

(14) **Penbryn**
- Gwasanaethau Croeso
- Gwasanaethau'r Gymraeg
- Neuadd Fwyd
- Swyddfa Cynadleddau
- Ystafelloedd Medrus

(15) **Adeilad Gwyddorau Ffisegol**
- Ffiseg
- Llyfrgell Gwyddorau Ffisegol
- Mathemateg

(16) **Canolfan Chwaraeon**

(17) **Cawell Chwaraeon**

(18) **Canolfan Croesawu Myfyrwyr**
- Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
- Cymorth i Fyfyrwyr

(19) **Undeb y Myfyrwyr**

(20) **Canolfan Addysg Milfeddygaeth**
- Ysgol Gwyddor Filfeddygol

(21) **Y Ganolfan Ddelweddu**
- Adnoddau Dynol
- Canolfan Ddeialog
- Llywodraethu
- Swyddfa'r Is-Ganghellor

(22) **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

## Parc Gwyddoniaeth

(23) **Uned 12**
- Swyddfa Gyllid
- Ymchwil, Busnes ac Arloesi

## Llety

- Cwrt Mawr
- Fferm Penglais
- Pantycelyn
- Pentre Jane Morgan
- Rosser
- Rosser G
- Trefloyne
- Byncws

Sganiwch y cod i weld ein map ar-lein ar eich dyfais

## Rhestr wirio

### Yn ystod eich diwrnod, neilltuwch amser:

- [ ] I gofrestru yng Nghanolfan y Celfyddydau, Campws Penglais
- [ ] I alw heibio i'r Ffair Wybodaeth
- [ ] I fynd i sgyrsiau cyffredinol
- [ ] I ymweld â'ch Adrannau Academaidd
- [ ] I ddod i adnabod y campws a'r dref
- [ ] I ddarganfod mwy am lety'r Brifysgol

**Wi-Fi am ddim - 'PAU-Guest'**
Bydd Wi-Fi am ddim ar y campws yn ystod y Diwrnod Agored.

**Os bydd argyfwng**
Cysylltwch â'r aelod staff agosaf ar unwaith.

**Wrth glywed y larwm dân**
Gadewch yr adeilad wrth yr allanfa agosaf, peidiwch â defnyddio'r lifftiau ac arhoswch y tu allan nes i aelod o staff y Brifysgol wybod ei bod yn ddiogel fynd yn ôl mewn.

**Diogelwch**
Er eich lles eich hun, peidiwch â chyffwrdd unrhyw ddeunydd neu gyfarpar oni bai bod aelod o'r staff yn eich gwahodd yn benodol i wneud hynny.

**Cwestiynau cyffredinol**
Gallwch ddod o hyd i gwestiynau cyffredin am y Diwrnod Agored yma **www.aber.ac.uk/da/cwestiynaucyffredin**

**Campws Heb Arian Parod**
Nodwch bellach fod y campws yn gweithredu heb arian parod - rydym yn derbyn taliadau digyswllt yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth am y Diwrnod Agored, cysylltwch â:

**www.aber.ac.uk/diwrnodagored**

**diwrnodagored@aber.ac.uk**

**+44 (0)1970 62 2065**

Sganiwch y cod QR yma am y Raglen Diwrnod Agored neu ewch i:

www.aber.ac.uk/rhaglenda

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Mae'r rhaglen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth, Mehefin 2025.